

# Polisi Amgylcheddol Eglwys Bresbyteraidd Cymru

"Fel Eglwys rydym yn ymrwymo i ofalu am greadigaeth Duw, drwy fuddsoddi'n fwriadol i leihau ein ôl troed carbon, drwy gynyddu ailgylchu, drwy leihau gwastraff, a gwella effeithiolrwydd ein defnydd o adnoddau naturiol ein byd."



## Fel eglwysi yn lleol fe fyddwn yn:

- sicrhau cyflenwyr trydan a nwy sy'n buddsoddi mewn ynni gwyrdd, ee Ecotricity, neu Good Energy.
- cyd-addoli / rhannu adeilad neu ddefnyddio adeilad cymunedol mwy eco-gyfeillgar i gyfarfod â'n cyfrifoldeb i fyd Duw
- defnyddio (a gwerthu) nwyddau Masnach Deg a lleol yn ein cartrefi a'n heglwysi
- archwilio'r posibilrwydd o gefnogi mentrau cynhyrchu ynni gwyrdd yn lleol
- peidio defnyddio plastig a ddefnyddir unwaith, a defnyddio papur sy'n dod o ffynonellau gwyrdd
- symud at systemau gwresogi sydd yn osgoi defnyddio tanwydd ffosil yn ein holl adeiladau, gan gynnwys ein capeli, tai capel, mans ayyb
- gwerthuso y balans rhwng adeilad golau a chynnes sy'n groesawgar, a'r angen i osgoi gwastraffu ynni
- dad-fuddsoddi mewn unrhyw gwmnïau sy'n cloddio am, neu yn hybu tanwydd ffosil os yw'r eglwys yn buddsoddi eu harian ei hunain; a
- hwyluso rhannu teithio, neu addasu amser oedfaon os yw hynny yn hwyluso'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus

## Fel Henaduriaethau a Chymdeithasfa fe fyddwn yn:

- gosod materion amgylcheddol fel rhan o feini prawf y Cynllun Gweinidogaeth a Strategaeth, gan gynnig cefnogaeth o'r gronfa strategaeth i ganolfannau'r cynllun sy'n symud at gynhesu neu at gyd-weithio sy'n lleihau ôl-troed carbon.
- yn cynorthwyo ein heglwysi i gyfarfod â nodau y polisi amgylcheddol
- sicrhau fod cyfarfodydd yr Henaduriaeth a'i phwyllgorau yn cael eu cynnal mewn ffordd eco-gyfeillgar. Bydd hyn yn golygu fod pobl yn medru ymuno yn rhithiol, neu yn medru teithio gyda'i gilydd, ac yn ddelfrydol, bod y cyfarfodydd mewn safleoedd sy'n gwneud teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn bosibl

- symud i sicrhau systemau gwresogi sydd yn osgoi defnyddio tanwydd ffosil mewn unrhyw eiddo sydd dan reolaeth yr Henaduriaeth.
- annog ein heglwysi i gydweithio gyda grwpiau trawsnewid neu grwpiau cynaliadwyedd lleol, neu i fynd ati i sefydlu grwpiau tebyg a derbyn hyfforddiant a chefnogaeth ar faterion megis cyfiawnder hinsawdd a gofal amgylcheddol

### Fel Cymanfa fe fyddwn yn:

- Dad-fuddsoddi mewn cwmnïau sydd naill ai yn parhau i dynnu tanwydd ffosil o'r ddaear, neu sydd heb ymrwymiad clir i leihau eu hol troed carbon. Byddwn yn gwneud hyn gyda'n partneriaid eglwysig, ac yn arbennig drwy dderbyn cyngor mudiadau megis y '*Transition Pathway Initiative*', a'n bod yn ceisio gweithredu hyn gan gynnwys dad fuddsoddi mewn cwmnïau sydd yn effeithio'n negyddol ar newid hinsawdd, cyn diwedd y flwyddyn.
- addasu ein rheolau mewn perthynas â'r defnydd o gyfalaf i gefnogi eglwysi sydd am symud oddi wrth y defnydd o danwydd ffosil
- symud i sicrhau systemau gwresogi sydd yn osgoi defnyddio tanwydd ffosil mewn unrhyw eiddo sydd dan reolaeth Bwrdd y Gymanfa. Hefyd gosod pwynt pweru car trydan mewn ardaloedd lle maent yn brin
- cynnig cefnogaeth ymarferol i unigolion sy'n gydnabyddedig neu yn gyflogedig wrth iddynt gymryd camau cadarnhaol at leihau y defnydd o danwydd ffosil, e.e. cynyddu swm y benthyriad/lwfans am gar trydan ayyb.
- sicrhau fod cyfarfodydd y Gymanfa, ei Bwrdd, Adran a pwyllgorau yn cael eu cynnal mewn ffordd eco-gyfeillgar. Bydd hyn yn golygu fod pobl yn medru ymuno yn rhithiol, neu yn medru teithio gyda'i gilydd, ac yn ddelfrydol, bod y cyfarfodydd mewn safleoedd sy'n gwneud teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn bosibl
- gwahodd unigolyn/ion i hyrwyddo'r polisi ar draws yr Enwad ac mewn perthynas â Enwadau a Grwpiau eglwysig eraill.

